



Annwyl Rieni / Ofalwyr

09.07.2021

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, hoffai staff achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth dros y flwyddyn. Mae wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn ond prysur unwaith eto gyda llawer o lwyddiannau ar draws yr ysgol gyfan. Diolch yn fawr iawn i'r disgyblion a'r staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad trwy gydol y flwyddyn anodd hon. Diolch i'r Llywodraethwyr am eu cefnogaeth, eu cydweithrediad a'u harweinyddiaeth strategol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Blwyddyn Academaidd 2021/2022

Bydd ein trefniadau a'n gweithdrefnau gweithredol yn parhau fel y maent ar hyn o bryd ond byddant falle yn newid wrth i ganllaw LIC a BCBC gael ei adolygu a'i rannu ag ysgolion. Mae ein trefniadau a'n gweithdrefnau cyfredol ar gael ar wefan ein hysgol, sydd i'w gweld ar www.ysgolbroogwr.cymru.

Ein blaenoriaeth yw diogelwch a lles pawb a byddwn yn parhau i addasu bywyd ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a BCBC i sicrhau'r risg leiaf i bawb yn ystod yr amseroedd ansicr hyn.

Dyddiadau Calendr

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol ddydd Llun, Medi 6ed.

Ein diwrnodau HMS a gadarnhawyd ar gyfer y flwyddyn nesaf yw:

Dydd Gwener Medi 3ydd

Dydd Llun Medi 27ain

Dydd Gwener Hydref 22ain

Bydd 3 diwrnod HMS arall yn digwydd a chaiff rhain eu cadarnhau ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Bydd dyddiadau pellach a gweithgareddau ysgol ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd yn cael eu hanfon allan ar ôl dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Adroddiadau Ysgol

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn wedi'u dosbarthu heddiw. Meithrin i Flwyddyn 4. Bydd blynyddoedd 5 a 6 yn eu derbyn ar ôl dychwelyd ddydd Mawrth. Os na fydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol am weddill y tymor hwn, cysylltwch â'r swyddfa ar admin.broogwr@bridgend.gov.uk i drefnu casglu neu ofyn bod adroddiad eich plentyn yn cael ei e-bostio neu ei bostio adref. Bydd llythyr hefyd gyda'r adroddiad yn eich hysbysu chi a'ch plentyn am eu dosbarth a'u hathro y flwyddyn nesaf. Fe sylwch y bydd gan ddosbarthiadau'r flwyddyn nesaf grŵp blwyddyn ac enw afon Cymreig ar gyfer pob dosbarth, a ddewisir gan y Cyngor Ysgol.

Gwisg Ysgol

Mae hwn yn amser rhagorol o'r flwyddyn i'ch atgoffa o wisg ysgol cyn i chi baratoi a gwneud trefniadau ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi. Cefnogwch ni i sicrhau delwedd ysgol gref ac undod ar draws yr ysgol. Gall y rhain ymgorffori logo'r ysgol ai peidio - mae logo'r ysgol yn ddewisol.

Crys Polo Coch

Siwmpwr / Cardigan / Hoodie Gwyrdd

Trowsus / Siorts / Sgert Llwyd

Ffrog Haf Gwyrdd / Coch

Esgidiau **Du** neu Esgidiau Chwaraeon **Hollol Ddu**

Ffarwel

Hoffem ffarwelio a dymuno pob lwc i aelodau Staff sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor hwn. Maent naill ai'n symud i swyddi newydd neu'n cychwyn ar bennod newydd yn eu bywydau. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu hymroddiad a'u cefnogaeth i'r ysgol dros y blynyddoedd. Pob dymuniad da i Mr Rhys Cahill, Miss Ceirios Matthews a Mrs Claire Williams. Pob lwc i'n holl ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth iddyn nhw ein gadael a chychwyn ar bennod nesaf eu haddysg.

Unwaith eto, rydym yn diolch i chi am eich cydweithrediad parhaus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'ch dealltwriaeth a'ch amynedd yn yr hyn sy'n brofiad dysgu parhaus i ni i gyd. Fel arfer, os oes angen unrhyw gymorth yn ystod gweddill y tymor hwn, cysylltwch â'r ysgol trwy gyfeiriad e-bost Admin yr ysgol. Nid yw cyfeiriad e-bost yr ysgol yn cael ei fonitro fel mater o drefn dros wyliau'r Haf, cysylltwch â BCBC gydag unrhyw ymholiadau cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd neu cysylltwch â'r ysgol o ddydd Gwener Medi 3ydd. Oherwydd newid i seilwaith TG yr ysgol, bydd ein cyfeiriad gweinyddol ysgol cyfredol yn newid i admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru. Defnyddiwch hwn ar gyfer gohebiaeth yn y dyfodol.

Mwynhewch wyliau'r Haf ac fe welwn ni chi ddydd Llun, Medi 6ed.

Sharon Jayne

Nik Dart

Pennaeth

Cadeirydd y Llywodraethwyr